**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| | K M Griffiths | V A Holland |
| Y V Jardine | S M Jones | S Joy |
| E T Kirchner | W G Lewis | M S Tribe |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Claire Edwards | Prif Swyddog - Gwasanaethau Comisiynu a Gofal |
| Mark Gosney | Arweinydd Tîm Comisiynu |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Linzi Margetson | Prif Swyddog - Diogelu a Pherfformiad |
| Alison Mathias | Rheolwr Tîm - Uned Ansawdd Gwasanaeth |
| David Rossiter | Arweinydd Tîm Comisiynu |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiadau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Diweddariad gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Roedd David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol i friffio'r Panel ar adroddiad blynyddol Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg 2022-23 ac i ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae gan y Bwrdd bedwar is-grŵp. Mae'r Cyfarwyddwr yn teimlo bod tri allan o bedwar wedi dangos tystiolaeth dda o gynnydd yn erbyn amcanion. Mae'r pedwerydd grŵp yn waith ar y gweill o ran sut i gyfuno adrodd am berfformiad ar draws y bartneriaeth. Mae'r Panel yn pryderu nad yw'r Bwrdd Rhanbarthol mor effeithiol ag y dylai fod. Nododd y Cyfarwyddwr ei fod yn tynnu sylw at gyfle i wella mewn un maes.
- Yr amcan wrth symud ymlaen yw gwella cyfraniad plant a theuluoedd yn y rhanbarth a datblygu'r agenda mewn perthynas â diogelu. Rydym yn dechrau gweld ychydig o gynnydd o ran hyn gyda rhai mentrau.
- Trafododd y Panel erthygl yn y cyfryngau am y cynnydd mewn materion diogelu sy'n cael eu cyflwyno i gynghorau a gofynnodd a oes problem fawr gyda nifer y materion diogelu yn Abertawe. Fe'i hysbyswyd nad yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gweld cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau a chysylltiadau, fel sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill yn ôl y cyfryngau.
- Teimlai'r Panel y dylai fod y Bwrdd Diogelu yn ymdrechu mewn rhai ardaloedd mewn perthynas â diogelu, yn enwedig o ran cyffuriau, gan ymdrechu i sicrhau bod cydlynu rhwng asiantaethau yn gweithio. Clywodd y Panel fod byrddau eraill yn rhan fawr o'r gwaith go iawn sy'n cael ei wneud, a'r hyn y mae'r Bwrdd Diogelu yn ei wneud yw ceisio sicrwydd bod yr holl drefniadau hyn ar waith a'u bod yn gwneud gwahaniaeth o ran diogelu dros amser.

## 6 Adroddiad Blynyddol yr Uned Ansawdd Gwasanaeth

Amlygodd Alison Mathias, Rheolwr Tîm yr Uned Ansawdd Gwasanaeth y prif bwyntiau o Adroddiad Blynyddol 2022-23 ac atebodd gwestiynau'r Panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Nododd y Panel ba mor anodd yw i blant sy'n mynd i ofal am y tro cyntaf ac awgrymodd, yn ogystal ag ysgrifennu llythyrau, y dylid gwneud mwy ar lafar gyda'r plant hyn megis creu recordiad. Roedd swyddogion yn teimlo bod yr awgrym yn un da iawn a byddant yn archwilio'r opsiwn ymhellach.
- Gofynnodd y Panel pam roedd y gyfradd eiriolaeth mor isel. Fe'i hysbyswyd bod sawl rheswm dros hyn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'i ddarparwr comisiynu, NIAS i helpu i ddeall sut y gellir cyfathrebu hyn yn well i'w blant sy'n derbyn gofal.

## 7 Adolygiadau Comisiynu - Y diweddaraf am y cynnydd

Roedd Jane Whitmore, Comisiynydd Strategol Arweiniol a swyddogion perthnasol eraill yn bresennol i friffio'r Panel, gan bwysleisio ei fod yn wahanol i gaffael, nid contract ar gyfer rheoli grantiau yn unig yw hyn ac mae'n ymwneud â nodi'r bylchau, a phwy yw'r person gorau i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd ar draws Abertawe.

Pwyntiau trafod:

- Gofynnodd y Panel pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth o ran cadw costau gwasanaethau dan reolaeth wrth sicrhau ei fod yn cyflwyno'r gwasanaeth y mae pobl yn ei eisiau. Clywyd bod rhai gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu ac mae'r gwariant y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod. Os oes dewis o ran y gwerth gorau am arian, mae'r timau'n gweithio'n galed i drafod prisiau gyda chyflenwyr/darparwyr i sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau.
- O ran darparu gwasanaethau drwy gomisiynu, holodd y Panel a fanteisir ar bob cyfle i siarad â chleientiaid am eu gofynion. Clywyd bod adborth yn cael ei dderbyn gan fuddiolwyr a'u bod yn rhan o'r gwaith blaengynllunio.
- Mae'r Panel yn ymwybodol bod yr elfen nid er elw'n achosi problemau yn y farchnad a gofynnodd a oes unrhyw adborth am hyn gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet ei bod yn mynychu cyfarfod rhwydwaith gyda'r Gweinidog a bod y mater hwn ar yr agenda. Ar hyn o bryd mae gweithgor yn edrych ar y diffiniad o nid er elw, gobeithio y bydd mwy o eglurder cyn bo hir.

## 8 Cynllun Waith 2023-24

Ystyriodd y panel y cynllun gwaith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm